

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Bethan Harrison a Mair Jones (Nantglyn) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth Mr Trefor Lloyd, tad Bethan, a brawd i Mair. Gweddïwn y byddant fel teulu yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt y dyddiau hyn ac y byddant yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynnu. Cofiwn hefyd am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd.
- Anfonwn ein cofion at Heddwyn Davies (Llansannan) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos, a pharhawn hefyd i gofio am Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun ac Elizabeth Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Bae Colwyn. Cyflwynwn y tri i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn. Mae'n dda cael adrodd fod Mair Jones (Nantglyn), Falmai Evans a Gwennan Hughes (Saron), a Jane Williams (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Yr ydym yn parhau i'w cofio yn ein gweddïau, gan ofyn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Llongyfarchiadau i Owain a Nia Roberts (Cefn Berain) ar enedigaeth Wiliam Dafydd, brawd bach i Anni a Martha. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

## I ddo

- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed am 10.00. Pwnc: "Cymorth i Farw".
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog dydd Gwener, Mai 8fed. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a **Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith plant ac oedolion yr Ysgol Sul.**
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Seilo, Llandudno (LL30 2DY) dydd Mawrth, Mai 12fed. Disgwylir y Parch. Casi Jones, Clynnog i annerch am 2.00 a Delyth Wyn Davies, Chwilog am 5.30. Darperir paned o de yn festri Capel Seilo rhwng y ddau gyfarfod, neu, fel y gwyddoch, mae digon o gyfleusterau i gael bwyd ar y Stryd Fawr. Mae manylion y cyfleusterau parcio wedi ei anfon i bob eglwys. Croeso cynnes i bawb.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) ym Mheniel ar Fai 17eg am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams.
- **DARLITH "MARI JONES AC ANN GRIFFITHS"** gan yr Athro E. Wyn James yn Festri Llansannan nos Lun, Mehefin 1af am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 12fed-13eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565. Mae angen archebu lle erbyn Mai 29ain.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26<sup>ain</sup> Ebrill 2015

## Darlleniad y Dydd

Eseia 64:1-4

(BCND tud.679 / BCN: tud.619)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da! Croeso i oedfaon y dydd heddiw. Mae hi wedi bod yn glir iawn yr wythnos hon a phob copa draw i'r gorllewin o'r Aran i Garnedd Dafydd i'w weld yn blaen am ddyddiau. Codi ei lygaid tua'r mynydd a wnaeth y Salm (121) a gofyn am gymorth ac felly y byddwn ninnau heddiw gobeithio yn edrych tuag at fryn Calfaria i dderbyn bendith Duw a'i gael yn Dduw agos a nerthol.

Mae Eseia hefyd yn edrych tua'r mynyddoedd ond y mae o'n disgwyl i Dduw doddi'r mynyddoedd o'i flaen! Wrth geisio help Duw, gweddïo am gael profiad o nerth Duw a wna'r Cristion fel Eseia. "O na rwyg y nefoedd a dod i lawr!" yw'r gri, fel y bydd y "mynyddoedd yn toddi o'th flaen." (Eseia 64:1)

Brawychus ddigon ydi'r hanesion yr wythnos yma am y tanau gwair ar hyd a lled De Cymru ac i raddau llai yma'n y Gogledd. Mae'r rhan fwyaf yn cael eu cynnau'n fwriadol yn ôl yr heddlu ac mae ehangder y difrod – dros aceri lawer – yn her difrifol i'r gwasanaeth tân. Disgwyl am y glaw maen nhw faswn i'n meddwl. Disgwyl tân yr Ysbryd a wnawn ni wrth i ni edrych ymlaen at brofi presenoldeb Duw yn ein plith. Mae'n siŵr fod yna berygl mai disgwyl am Dduw dof a wnawn gan amla, Duw nad ydan ni yn disgwyl iddo ein newid rhyw lawer. Ond yr hyn sy'n wir am y profiad o dderbyn yr Ysbryd Glân ydi'r gwahaniaeth rhyfeddol – a nerthol – sy'n digwydd ym mywydau'r disgyblion ymhob oes.

Cyflawni ei addewid y mae Iesu wrth anfon yr Ysbryd mewn nerth a phrofiad tebyg i weld Duw yn rhwygo'r nefoedd ac yn toddi'r mynyddoedd o'i flaen fyddai'r profiad hwnnw wedi bod i'r disgyblion cynnar ac mae Duw yn parhau i anfon ei Ysbryd 'yn enw Iesu mawr'. Profiad bendithiol ac ysgytwol ydi clywed tystiolaeth pobl o'r Fro yn derbyn yr Ysbryd Glân ac yn dod i sicrwydd ffydd yn Iesu. Profiad o ddiwygiad mewnol sy'n newid ein holl ddymuniadau a serchiadau ein dyheadau – a'n hiraeth hyd yn oed – ydi'r profiad yma.

Does neb gwell na Williams Pantycelyn am ddisgrifio'r profiad, ac o fyfyrion ar emyn 315 cewch weld yn union yr hyn dwi'n drïo ei fynegi yma. Dyma i chi un bennill o'r emyn fel rhagflas – a phob bendith heddiw wrth i ni gynnwll eto gerbron ein Duw nerthol.

Fflam o dân o ganol nefoedd  
Yw, ddisgynnodd yma i'r byd,  
Tân a lysg fy natur gyndyn,  
Tân a leinw f'eang fryd:  
Hwn ni ddiffydd  
Tra parhao Duw mewn bod!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 26<sup>ain</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 28<sup>ain</sup>
- **Noson Gymdeithasol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.30. Y gŵr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew. Croeso cynnes i bawb. £3.00 yn cynnwys lluniaeth ysgafn.
- Mercher – 29<sup>ain</sup>
- **Adnabod** \*NEWYDD – Grŵp i'r merched iau yn cychwyn am 7.30 yn y Granar yn Llansannan. Os oes unrhyw un arall â diddordeb i ymuno, plis cysylltwch â Mair (870632).
- Iau – 30<sup>ain</sup>
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 1<sup>af</sup>
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sadwrn – 2<sup>il</sup>
- **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf – 3<sup>ydd</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 3<sup>ydd</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Cynhelir Pwyllgor Cymorth Cristnogol am 7.15 yn Ystafell y Blaenoriaid.
- Iau – 30<sup>ain</sup> Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 3<sup>ydd</sup> Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 3<sup>ydd</sup> Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> Bydd Miss Sioned Ll. Williams yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yno am 2.00.
- Sul nesaf – 3<sup>ydd</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> Cynhelir Oedfa Deuluol yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.30 gyda chinio i ddilyn yn y Festri. Cynhelir Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 3<sup>ydd</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 ac fe weinyddir y cymun. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. NI FYDD Ysgol Sul yn Llanefydd heddiw.
- Gwener – 1<sup>af</sup> Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb!
- Sul nesaf – 3<sup>ydd</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 21:15-17 (BCND tud.127 / BCN: tud.117)